north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 17 Medi 2021**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 17 Medi 2021

---

**PWNC**

Eitem 5: ADOLYGIAD ASESIAD RHAGLEN 2021

---

**PENDERFYNIAD**

**(1) Bod y Bwrdd yn nodi canfyddiadau Adolygiad Asesiad Rhaglen 2021.**
**(2) Bod y Bwrdd yn nodi y bydd yr adroddiad yn ffurfio rhan o gyflwyniad dyfarniad cyllid blynyddol 2021-22.**
**(3) Bod y Bwrdd yn nodi y bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn datblygu cynllun gweithredu i gyflawni yn erbyn yr argymhellion.**

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'n ofynnol dan Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf bod Cynllun Twf Gogledd Cymru yn destun adolygiad porth allanol blynyddol o'r portffolio a'r pum rhaglen.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn.

---

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 17 Medi 2021**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 17 Medi 2021

---

**PWNC**

Eitem 6:DIWEDDARIAD LOGO

---

**PENDERFYNIAD**

**Cymeradwyo’r logo diwygiedig ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chynllun Twf Gogledd Cymru.**

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Datblygwyd gwefan a brand cyfredol y Bwrdd Uchelgais yn ystod dyddiau cynnar sefydlu'r Bwrdd. Gyda'r Cynllun Twf Terfynol wedi'i lofnodi, a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn symud i wedd cyflawni prosiectau'r Cynllun Twf, mae'n amserol diwygio ac ail-lansio'r brand a'r wefan.

Yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 30ain Gorffennaf 2021, cymeradwyodd y Bwrdd y Brand cyffredinol (arddull, lliwiau ayyb.) ond gofynnodd bod gwaith pellach yn cael ei wneud i adolygu’r logo, gan ystyried yr adborth a dderbyniwyd yn y cyfarfod

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Bwrdd Portffolio.
Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn.

---

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 17 Medi 2021**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 17 Medi 2021

---

**PWNC**

Eitem 8:DIWEDDARIAD I ACHOS BUSNES Y PORTFFOLIO 2021

---

**PENDERFYNIAD**

**(1) Bod y Bwrdd yn cymeradwyo diweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.**
**(2) Bod y Bwrdd yn nodi y bydd y pedwar prosiect sy'n rhagweld amrywiad ariannol posib' ar hyn o bryd ers Achos Busnes 2020 yn destun adolygiad gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'r Bwrdd Portffolio, a darperir diweddariad yn y cyfarfod nesaf.**
**(3) Bod y Bwrdd yn gofyn i'r Cyfarwyddwr Portffolio gyflwyno'r holl ddogfennaeth ofynnol a'r ffurflen gais i newid i Lywodraethau Cymru a'r DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol a dirprwyo hawl i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw fân addasiadau ar gais Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.**

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'n ofynnol dan Gytundeb Terfynol y Cynllun Twf bod Achos Busnes y Portffolio yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn.

---